**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'r enw Adroddiad gwrandawiad cyn penodi – yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru**

---

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n ymwneud â'r gwrandawiad cyn penodi ar gyfer y Comisiynydd Plant Cymru newydd ar 17 Rhagfyr.

Hoffem ddiolch i aelodau o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am graffu ar yr ymgeisydd a ffefrir. Mae hyn yn rhan hynod bwysig o'r broses ac rydym yn falch eich bod wedi gallu cymeradwyo'r ymgeisydd a ffefrir, Ms Rocio Cifuentes.

Hoffem hefyd estyn ein diolch i Laura Ann Jones AS a Sian Gwenllian AS, a oedd yn rhan o banel recriwtio trawsbleidiol Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys llunio rhestr fer, cyfweld a chraffu ar yr ymgeiswyr ar y rhestr fer.

Ysgrifennodd y Prif Weinidog at Ms Cifuentes ar 20 Rhagfyr 2021 yn ei gwahodd i wasanaethu yn ffurfiol fel Comisiynydd Plant Cymru. Derbyniodd Ms Cifuentes y swydd ar 22 Rhagfyr 2021, a bydd yn cychwyn ar ei dyletswyddau ar 20 Ebrill 2022.

Hoffem hefyd ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu hargymhellion penodol yr ymdrinnir â hwy isod.

**Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

**Argymhelliad 1**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Pwyllgorau'r Senedd yn fwy ystyrlon yn y broses recriwtio sy'n gysylltiedig â phenodiadau gweinidogol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ymgysylltu â'r Pwyllgor perthnasol ar ddechrau'r broses recriwtio. Yn dibynnu ar y swydd a barn y Pwyllgor perthnasol, gallai hyn gynnwys:

- Rhoi ffurflenni cais, CVs ac ati unrhyw ymgeiswyr ar y rhestr fer i aelodau'r Pwyllgor.
- Cynrychiolydd o'r panel recriwtio yn briffio'r Pwyllgor cyn y gwrandawiad cyn penodi i roi trosolwg o'r broses recriwtio, trafod yr holl ymgeiswyr ac ymateb i unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
- Cynnwys y Pwyllgor yn fwy ffurfiol yn y broses recriwtio (e.e. gyda chynrychiolwyr y Pwyllgor yn arsylwyr-aelodau o'r panel recriwtio).

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cytunwyd ar y dull presennol ar gyfer penodiadau cyhoeddus gan Weinidogion Cymru a Chomisiwn y Senedd[1]. Mae canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi (h.y. yr ymgeisydd a ffefrir yn symud ymlaen i gael gwrandawiad cyn penodi) yn unol ag arfer confensiynol mewn mannau eraill yn y DU.

Mae'r broses ehangach o benodiadau cyhoeddus yn cael ei goruchwylio gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Ym mis Ebrill 2022, bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd yn cynnal adolygiad ar y cyd i weld sut y gall gefnogi pwyllgorau'r Senedd orau i sicrhau craffu effeithiol cyn penodi ar gyfer penodiadau Gweinidogol. Bydd yr adolygiad yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn.

Gan ddysgu o'r broses recriwtio hon, byddwn yn ystyried diweddaru'r canllawiau i gynnwys briffiau cyfrinachol i gadeirydd y pwyllgor perthnasol ar adegau pwysig yn yr amserlen recriwtio. Bydd hyn yn darparu:

- Gwybodaeth bod ymgyrch recriwtio yn cael ei hystyried ac i amlinellu'r amserlen recriwtio arfaethedig;
- Gwybodaeth pan fydd yr hysbyseb yn cau, gan gynnwys nifer yr ymgeiswyr;
- Enwau'r ymgeiswyr ar y rhestr hir a/neu ar y rhestr fer a dadansoddiad o ran eu hamrywiaeth; a
- Rhestr o ymgeiswyr ar y rhestr fer a wahoddwyd i gyfweliad a'u dogfennau cais perthnasol.

[1] Canllawiau Craffu Cyn Penodi sydd wedi'u hatodi fel dogfen ar wahân

Byddwn hefyd yn ystyried cynnwys yn y canllawiau, disgwyliad bod cadeirydd y panel recriwtio yn darparu cyfarfod briffio i'r pwyllgor perthnasol cyn y gwrandawiad cyn penodi. Bydd hyn yn galluogi'r cadeirydd i egluro unrhyw faterion ar ran y pwyllgor cyn y gwrandawiad cyn penodi.


**Argymhelliad 2**


Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y penodiad i swydd Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd.

**Ymateb: Gwrthod**

Rydym yn deall safbwyntiau'r Pwyllgor ar y pwnc hwn. Fodd bynnag, ar y cyfan, rydym yn parhau i fod o'r farn bod y trefniadau presennol ar gyfer pob comisiynydd yn gweithio'n dda ac nid ydym yn gweld yr angen i newid y rhain.

Nid ydym yn credu bod annibyniaeth y Comisiynydd Plant na Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn cael ei thanseilio gan y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ymwneud â recriwtio Comisiynydd Plant Cymru, nac y byddai trosglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer penodiad y Comisiynydd Plant i'r Senedd yn arwain at unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y broses recriwtio a ddilynwyd.





**Mark Drakeford, AS**
**Y Prif Weinidog**

**a**

**Jane Hutt, AS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**

# CRAFFU CYN PENODI GAN BWYLLGORAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# Gwrandawiadau cyn penodi a gynhelir gan Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Diben**

Mae’r ddogfen hon yn disgrifio trefniadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer craffu ar addasrwydd ymgeisydd cyn i’r broses penodi cyhoeddus gael ei chwblhau gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Bydd y trefniadau hyn yn berthnasol i nifer o benodiadau Cadeiryddion, a chawsant eu paratoi gan Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cefndir**

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amrywiaeth o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae’r penodiadau hyn yn uchel eu proffil ac maent yn gyfle i lywio a dylanwadu ar lawer o’r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar gyfer pobl Cymru. Wrth wneud penodiadau cyhoeddus a reoleiddir, rhaid i Weinidogion Cymru weithredu’n unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy’n gyfrifol am ddarparu sicrwydd annibynnol bod penodiadau’n cydymffurfio â’r Cod.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cod Llywodraethu hwn, rôl y Comisiynydd, a phenodiadau a reoleiddir ar gael ar wefan y Comisiynydd:

https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/

Mae Gweinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno i gynnwys trefniadau ar gyfer craffu cyn penodi yn y broses o benodi Cadeiryddion, sef trefniadau a weithredir gan Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gwella trylwyredd a thryloywder y broses o graffu ar benodiadau cyhoeddus. Bydd y trefniadau hyn yn golygu y bydd y Pwyllgor perthnasol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal gwrandawiad cyn penodi i graffu ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir.

**Y meini prawf ar gyfer craffu cyn penodi**

Bydd gan Bwyllgorau'r Cynulliad yr opsiwn o gynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer penodiadau Gweinidogol pwysig Llywodraeth Cymru, megis Cadeiryddion byrddau cyrff cyhoeddus. Mae'r rhestr lawn o'r swyddi perthnasol i'w gweld yn Atodiad A.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i Bwyllgor perthnasol y Cynulliad am yr holl benodiadau cyhoeddus Gweinidogol y bydd angen eu gwneud yn y dyfodol agos i recriwtio Cadeiryddion. Darperir yr wybodaeth berthnasol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol a/neu fel eithriad os bydd swydd Cadeirydd yn codi'n annisgwyl.

Os bydd eithriad, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ofyn am gynnal gwrandawiad cyn penodi hefyd ar gyfer recriwtio Cadeirydd i gorff cyhoeddus, os bydd yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae'r penodiad o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd;
- Bydd y penodiad yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd.

Bydd y Pwyllgor perthnasol yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod yn dymuno cynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer penodiad Cadeirydd nad yw'n cael ei gategoreiddio'n benodiad pwysig, ond sy'n bodloni'r meini prawf uchod. Bydd cais o'r fath gan Bwyllgor perthnasol yn cael ei ystyried gan Weinidogion Cymru, gan mai nhw fydd yn penderfynu yn y pen draw a ddylid cynnal gwrandawiad cyn penodi o dan yr amgylchiadau dan sylw. Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'n briodol i'r Pwyllgor perthnasol gynnal gwrandawiad cyn penodi, rhaid iddynt amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'w penderfyniad.

Fel arfer, bydd y Pwyllgor yn gwrando ar dystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir yn y cyfnod ar ôl i'r broses ddethol gael ei chwblhau, ond cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau.

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r Pwyllgor perthnasol yn gynnar yn y broses er mwyn nodi dyddiad addas ar gyfer cynnal y gwrandawiad. Lle bynnag y bo'n bosibl, ni ddylai diwedd y cyfnod dethol gyd-ddigwydd â dechrau unrhyw doriad hir a gymerir gan y Cynulliad. Os bydd rhywun sydd yn y swydd eisoes yn cael ei ailbenodi, dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor er na fydd ail benodiadau'n rhan o'r broses cynnal gwrandawiadau cyn penodi.

Fel arfer, caiff gwrandawiadau cyn penodi eu cynnal yn gyhoeddus, ac fel rhan ohonynt bydd y Pwyllgor yn gwrando ar dystiolaeth gan yr ymgeisydd. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad, fel arfer o fewn 48 o oriau ar ôl cynnal y gwrandawiad, gan roi ei farn ynghylch pa mor addas yw'r ymgeisydd.

# Cyn cynnal gwrandawiad

Dylai pawb sy’n gysylltiedig â’r broses ddethol ar gyfer gwneud penodiad cyhoeddus sy’n destun gwrandawiad cyn penodi, gael gwybod y gallai gwrandawiad cyn penodi gael ei gynnal. Dylai hynny gael ei nodi’n glir yn yr holl gyhoeddusrwydd sy’n ymwneud â’r swydd, er mwyn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn gwybod.

O leiaf un wythnos cyn dyddiad y gwrandawiad, oni bai bod cytundeb i wneud fel arall, dylai Llywodraeth Cymru roi enw a manylion perthnasol (CV, datganiad personol, datganiad o ddiddordeb etc) yr ymgeisydd y mae’n yn ei ffafrio ar gyfer y penodiad, ynghyd â gwybodaeth am y rôl, ac amlinelliad cryno o sut y cafodd y broses recriwtio ei gweithredu, i’r Pwyllgor. Dylai’r wybodaeth hon gynnwys manylion am y panel cyfweld a gwybodaeth cefndir dienw am y ceisiadau a gafwyd, er enghraifft nifer y ceisiadau a ddaeth i law, y nifer ar y rhestr fer, a nifer yr ymgeiswyr yr ystyriwyd eu bod yn addas i gael eu penodi.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymgeiswyr yn gwybod y gallai’r Pwyllgor gyhoeddi’r holl wybodaeth a roddir iddo, oni bai bod cytundeb hollol glir fel arall. Felly, ni ddylid rhannu gwybodaeth gyfrinachol sy’n ymwneud â’r broses benodi – er enghraifft, gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr eraill – gyda’r Pwyllgor oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai’r dogfennau hyn gael eu cyhoeddi.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu briffio a’u cefnogi’n briodol cyn iddynt fynychu gwrandawiad cyn penodi, yn enwedig os ydynt yn ymddangos ger bron un o Bwyllgorau’r Cynulliad am y tro cyntaf. Dylid annog ymgeiswyr i siarad yn uniongyrchol â Chlerc y Pwyllgor er mwyn trafod dull gweithredu tebygol y Pwyllgor.

Bydd angen i’r ymgeisydd allu gwrthsefyll craffu seneddol a chyhoeddus os bydd yn ymgymryd â’r swydd, ac mae’n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno profi’r gallu hwnnw. Er mai mater i’r Pwyllgor yw cynnwys y cwestiynau a ofynnir i’r ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad, fel arfer bydd y cwestiynau’n ymwneud â chymhwysedd proffesiynol ymgeisydd, ei annibyniaeth bersonol, sut y mae’r unigolyn yn bwriadu cyflawni’r swydd, a’r profiad a’r arbenigedd a fyddai o fantais i’r swydd. Ni fyddai disgwyl i ymgeiswyr ddeall pob manylyn ynghylch sut y mae’r corff y byddent yn gyfrifol amdano yn gweithio, er y gallai cwestiynau o’r fath gael eu gofyn mewn sesiynau tystiolaeth ar ôl i unigolyn ymgymryd â swydd.

# Adroddiad y Pwyllgor a phenderfyniad y Gweinidog

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad i'w osod ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhoi ei sylwadau ynglŷn â pha mor addas yw'r ymgeisydd. Fel arfer bydd yr ymgeisydd a'r Gweinidog yn cael yr adroddiad o dan embargo 24 awr er mwyn rhoi amser iddynt ystyried yr adroddiad a pharatoi ymatebion i unrhyw bwyntiau penodol a godir ynddo. Fel arfer bydd yr adroddiad y cael ei gyhoeddi o fewn 48 o oriau i'r gwrandawiad.[1]

Ar ôl cael adroddiad y Pwyllgor, bydd y Gweinidog yn ei ystyried cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r penodiad.

Dylid codi unrhyw bryderon am benodi ymgeisydd a ffefrir mewn gohebiaeth neu drafodaeth breifat gyda'r Gweinidog, cyn cyflwyno'r adroddiad. Bydd y Gweinidog yn dymuno ystyried pa mor ddoeth fyddai cymeradwyo'r penodiad. O dan yr amgylchiadau hyn, gall y Pwyllgor gytuno y dylai'r Gweinidog roi gwybod i'r ymgeisydd ynglŷn ag amheuon y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Mewn achos lle na all y Pwyllgor, yr ymgeisydd, a'r Gweinidog ddod i gyfaddawd (er enghraifft, yr ymgeisydd yn dewis tynnu ei enw yn ôl), gellir disgwyl i'r Pwyllgor gyflwyno ei adroddiad a bydd y Gweinidog wedyn yn gwneud ei benderfyniad.

Dylai'r Gweinidog bwyso a mesur sylwadau a chasgliadau'r Pwyllgor yn ofalus, a hynny yn erbyn y dystiolaeth a gafwyd o'r broses benodi ei hun, er mwyn ffurfio barn derfynol sy'n sicrhau bod y penderfyniad wedi cael ei wneud mewn modd teg, ac ar ôl ystyried yr holl wybodaeth berthnasol.

Y Gweinidog sy'n penderfynu a ddylid derbyn argymhellion y Pwyllgor ynglŷn â phenodiad, ai peidio. Rhaid i'r Gweinidog ystyried unrhyw sylwadau perthnasol sydd wedi eu gwneud gan y Pwyllgor, cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r penodiad. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon derbyn un o argymhellion y Pwyllgor, dylai'r Gweinidog anfon ymateb i'r Pwyllgor gan egluro'r rheswm/rhesymau pam nad yw'n fodlon ei dderbyn.

Os bydd y Pwyllgor yn argymell na ddylid penodi ymgeisydd, ac os bydd adroddiad y panel asesu wedi nodi mwy nag un ymgeisydd a fyddai'n addas ar gyfer y swydd ac mae'r Gweinidog yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r penodiad, gallai'r Gweinidog gynnig penodi ymgeisydd arall o'r rhestr. Mewn achos o'r fath, y peth mwyaf tebygol fyddai cynnal gwrandawiad cyn penodi arall i asesu'r ymgeisydd newydd sydd wedi ei gynnig gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â Chlerc y Pwyllgor mewn modd amserol i nodi dyddiad cyfleus ar gyfer cynnal ail wrandawiad. Opsiwn arall a fyddai ar agor i'r

[1] Cyfeirio at ddiwrnodau gwaith y mae'r amserlen

Gweinidog fyddai dewis peidio â bwrw ymlaen â'r penodiad, ac yn hytrach ail gynnal y gystadleuaeth yn gyfan gwbl.

**Atodiad A**

Mae'r rhestr hon yn nodi pa swyddi y bydd angen cynnal gwrandawiad cyn penodi mewn perthynas â nhw. Fel arfer, bydd y rhestr yn cael ei diweddaru bob blwyddyn.

- Cadeirydd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol
- Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru
- Cadeirydd Trafnidiaeth Cymru
- Cadeirydd Banc Datblygu Cymru
- Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cadeirydd Cymwysterau Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cadeirydd Chwaraeon Cymru
- Llywydd Bwrdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Llywydd Bwrdd Amgueddfa Cymru
- Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru